O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2013 Rhif 1658 (Cy. 156)

# IECHYD PLANHIGION, CYMRU

## Gorchymyn Iechyd Planhigion (Tystysgrifau Allforio) (Cymru) (Diwygio) 2013

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn, sy'n dod i rym ar … 2013, yn diwygio Gorchymyn Iechyd Planhigion (Tystysgrifau Allforio) (Cymru) 2006 (O.S. 2006/1701) ("Gorchymyn 2006").

Lefelau'r ffioedd y darperir ar eu cyfer yn y Gorchymyn hwn yw'r rhan gyntaf o symudiad tuag at adennill costau llawn y ffioedd dros gyfnod o dair blynedd. Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu ar gyfer cynyddu'r ffioedd a bennwyd yng Ngorchymyn 2006 fel a ganlyn:

(1) ffioedd am wasanaethau o ran ceisiadau am dystysgrifau yn ôl ystod rhwng 15% a 130% (erthygl 2(3)), a

(2) ffioedd am wasanaethau cyn-allforio yn ôl 85% (erthygl 2(4)).

Ceir rhagor o fanylion yn y Memorandwm Esboniadol sydd i'w weld ar wefan Cynullid Cenedlaethol Cymru (www.cynulliadcymru.org).

Mae asesiad effaith rheoleiddiol o effeithiau'r Gorchymyn hwn ar gostau busnesau, o ran y mathau o ffioedd sydd o dan sylw, wedi ei baratoi ynglŷn â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copïau gan Adran yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2013 Rhif 1658 (Cy. 156)

# IECHYD PLANHIGION, CYMRU

## Gorchymyn Iechyd Planhigion (Tystysgrifau Allforio) (Cymru) (Diwygio) 2013

*Gwnaed* *3 Gorffennaf 2013*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* *5 Gorffennaf 2013*

*Yn dod i rym* *31 Gorffennaf 2013*

Mae Gweinidogion Cymru dwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 3(1) a 4A o Ddeddf Iechyd Planhigion 1967(**1**) ac sydd bellach wedi eu breinio ynddynt hwy(**2**) yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn â chydsyniad y Trysorlys.

**Enwi, cymhwyso a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Iechyd Planhigion (Tystysgrifau Allforio) (Cymru) (Diwygio) 2013.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar … 2013.

(**1**) 1967 p. 8; gweler adran 1(2) i gael y diffiniad o "the competent authorities". Diwygiwyd adran 3(1) gan Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (p. 68), mewnosodwyd adran 4A gan Ddeddf Amaethyddiaeth 1986 (p. 49), adran 3.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd o dan Ddeddf Iechyd Planhigion 1967 (p. 8), i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Ysgrifennydd Gwladol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Cymru) (Rhif 1) 1978 (O.S. 1978/272) ac Atodlen 1 iddo. Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny o Ysgrifennydd Gwladol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru gan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi. Mae'r gofynion ynglŷn â chymeradwyaeth y Trysorlys o dan adran 4A o Ddeddf Iechyd Planhigion 1967 yn dal yn effeithiol.

**Diwygio Gorchymyn Iechyd Planhigion (Tystysgrifau Allforio) (Cymru) 2006**

**2.**—(1) Mae Gorchymyn Iechyd Planhigion (Tystysgrifau Allforio) (Cymru) 2006(**1**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn nhestun Cymraeg erthygl 3(3), yn lle "gronynnau" rhodder "grawn".

(3) Yn lle Atodlen 3 rhodder—

## "ATODLEN 3

Erthyglau 3 a 5

| *Gwasanaethau o ran ceisiadau am dystysgrifau* | *Ffi (£)* | *Ffi (allforiwr bach) (£)* |
|---|---|---|
| (1) Gwasanaethau am lwythi heblaw grawn: | | |
| arolygiad a, phan fo angen, archwiliad mewn labordy | 46.61 am bob chwarter awr neu ran ohono gydag isafswm ffi o 93.22 | 23.31 am bob chwarter awr neu ran ohono gydag isafswm ffi o 46.62 |
| archwiliad mewn labordy yn unig | 26.43 | 13.22 |
| dyroddi tystysgrif pan nad yw arolygiad neu archwiliad mewn labordy yn ofynnol | 8.21 | 4.11 |
| (2) Gwasanaethau ar gyfer llwythi o rawn: | | |
| monitro arolygiadau a gyflawnir gan berson awdurdodedig o dan erthygl 3(3), a phan fo angen hynny, archwiliad mewn labordy a gyflawnir gan swyddog awdurdodedig | 51.47 | 25.73" |

(4) Yn lle Atodlen 4 rhodder—

(**1**) O.S. 2006/1701 (Cy. 163).

## ATODLEN 4

Erthygl 5

| *Gwasanaeth* | *Ffi (£)* | *Ffi (allforiwr bach) (£)* |
|---|---|---|
| Gwasanaeth cyn-allforio | 37.46 am bob chwarter awr neu ran ohono gydag isafswm ffi o 74.92 | 18.73 am bob chwarter awr neu ran ohono gydag isafswm ffi o 37.46 |

*Alun Davies*
Y Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd, un o Weinidogion Cymru

3 Gorffennaf 2013